# RHONDDA CYNON TAF
## GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION YR HINSAWDD

Cofnodion rhithwir o’r gyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd Dydd Mercher, 17 Mawrth 2021 am 2.00 pm

### Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd Aelodau oedd yn bresennol:

Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd A Crimmings

**Cynghorwyr eraill sy'n bresennol:**

Y Cynghorydd M Griffiths

### Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Lawson, Rheolwr Cyflawniad
Mr C Davies, Rheolwr Materion Ymgynghori a Pholisïau Corfforaethol
Mr S Lock, Pennaeth Rheoli Prosiectau Ynni

### Cynrychiolwyr Allanol a wahoddwyd i'r Grŵp Llywio

Ms H Richards – Cyfeillion y Ddaear
Mr C Blake – Phrosiect Rhondda Skyline

**10 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd gan gyflwyno Mr C Blake a oedd yn bresennol ar ran Croeso i'n Coedwig.

**11 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**12 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020 yn rhai cywir.

**13 Strategaeth Ddrafft y Cyngor 2021-2025 – Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd**

Rhoddodd y Prif Weithredwr gyfle i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd drafod Strategaeth Ddrafft y Cyngor - Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd, fyddai'n destun ymgynghoriad â thrigolion a busnesau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet.

Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Aelodau bod y gwaith sydd wedi'i gyflawni gan y Grŵp Llywio yn ystod y 18 mis diwethaf wedi'i gyfuno i lunio strategaeth glir er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae hefyd yn mynd law yn llaw â Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r Grŵp Llywio at Strategaeth Ddrafft Cyngor RhCT - Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer 2021-2025, oedd wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad, a chroesawodd unrhyw sylwadau.

Dymunodd y Cadeirydd ddiolch i'r Prif Weithredwr am yr adroddiad gan gydnabod ymrwymiad cadarnhaol y Cyngor at gyflawni targedau lleol, cenedlaethol a byd eang mewn perthynas â lleihau lefelau carbon ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor ac roedd yn falch o nodi'r targedau uchelgeisiol o ran cyflawni targed Neto Sero 2030.

Roedd yr Is-gadeirydd yn gefnogol o'r Strategaeth uchelgeisiol i Fynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd a nododd y bydd datblygu'r strategaeth yma'n cyfrannu at y saith nod cenedlaethol, yn benodol o ran Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, Cymru fwy Cydnerth, Cymru Iach a Chymru o gymunedau cydlynus.

Nododd un Aelod agwedd uchelgeisiol y Cyngor o ran sefydlu rhwydwaith o fannau gwefru cerbydau trydan ledled y Sir, ysgogi'r farchnad ac ehangu'r ddarpariaeth gwefru, ond roedd yr Aelod hefyd o'r farn y dylai'r Strategaeth ganolbwyntio ymhellach ar gyfleoedd gwefru cerbydau trydan mewn ardaloedd preswyl. Pwysleisiodd yr Aelod bryderon blaenorol a godwyd gan y Grŵp Llywio mewn perthynas â'r anawsterau logistaidd sy'n gysylltiedig â gosod mannau gwefru ar strydoedd sydd heb gyfleusterau parcio oddi ar y stryd a gosod ceblau gwefru ar hyd troedffyrdd.

Roedd yr Aelodau wedi cydnabod y drafodaeth mewn perthynas â'r seilwaith i gefnogi gwaith gosod mannau gwefru cerbydau trydan mewn ardaloedd preswyl gan nodi bod adroddiad manwl wedi'i gynnwys ar yr agenda. Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Cyngor yn gweithredu dull cam wrth gam o ganlyniad i'r dechnoleg sy'n newid yn gyson a byddai angen ceisio enghreifftiau arfer da gan Awdurdodau Lleol eraill yn Y Deyrnas Unedig.

Er bod yr adroddiad yn nodi nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol a byddai unrhyw fuddsoddiad sydd ei angen i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau sy'n destun yr ymgynghoriad yn cael eu hadrodd a'u trafod ar wahân yn rhan o Gynllun Tymor Canolig y Cyngor, aeth un Aelod ati i ganmol y Cyngor am ei fuddsoddiad sylweddol ym maes lleihau Carbon, o ran arbed ynni a gwelliannau i adeiladau.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Prif Weithredwr am yr adroddiad gan roi gwybod y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ystod cyfarfod nes ymlaen yn y mis.

**PENDERFYNODD Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad yma a Strategaeth Ddrafft y Cyngor mewn perthynas â Newid yn yr Hinsawdd yn yr Atodiad;

2. Trafod Strategaeth Ddrafft y Cyngor mewn perthynas â Newid yn yr Hinsawdd a llunio argymhellion mewn perthynas â'r strategaeth ar gyfer Cabinet y Cyngor cyn i'r Cabinet fynd ati i drafod y Strategaeth yn ystod ei gyfarfod nes ymlaen yn y mis. Bydd gofyn i'r Cabinet drafod a yw'n dymuno cychwyn gwaith ymgysylltu eang gyda thrigolion a busnesau mewn perthynas ag ymateb y Cyngor i newid yn yr Hinsawdd gan ddechrau ym mis Ebrill 2021; a
3. Bod canlyniadau'r ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Cyngor mewn perthynas â Newid yn yr Hinsawdd yn cael eu trafod gan y Grŵp Llywio ar Faterion Newid yn yr Hinsawdd ym mis Mehefin cyn cyfarfod y Cabinet ym mis Mehefin.

## 14 Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar Faterion Newid yn yr Hinsawdd

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu diweddariad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd ynglŷn â'r dull o ymgysylltu â'r gymuned a chyfathrebu mewn perthynas â Newid yn yr Hinsawdd.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bwysigrwydd cychwyn sgwrs ehangach gyda'r gymuned mewn perthynas â phwysigrwydd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd er mwyn annog newid mewn ymddygiad a newid o ran sicrhau cefnogaeth y gymuned, yn ogystal â thargedu sgwrs ynghylch meysydd penodol megis Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd y Cyngor.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth amlinelliad o'r dull rhithwir arfaethedig ar gyfer y drafodaeth barhaus mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, sydd wedi ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu, a oedd wedi codi o ganlyniad i bandemig Covid-19. Rhoddodd y Grŵp Llywio wybod am ddatblygiad y porth Newid yn yr Hinsawdd canolig a'r nod o sefydlu sgwrs barhaus gyda thrigolion, gyda chymorth y Grwpiau Amgylcheddol.

Cynigodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ymgynghoriad 6-8 wythnos o ran Strategaeth Ddrafft y Cyngor mewn perthynas â Newid yn yr Hinsawdd, fyddai'n defnyddio'r dulliau canlynol i godi ymwybyddiaeth:

- Gwefan 'Dewch i Siarad RhCT', fyddai'n cynnwys dogfennau ar-lein, arolygon, arolygon barn a fideos;
- Gwefannau cyfryngau cymdeithasol amrywiol;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol; a
- Sesiynau ymgysylltu rhithwir amrywiol.

Cafodd yr Aelodau wybod am y bwriad i sefydlu cynllun ymgysylltu a chyfathrebu manwl yn gynnar yn ystod Blwyddyn nesaf y Cyngor, fyddai'n cynnwys rhai o ymgyrchoedd y Cyngor wedi'u targedu er mwyn i'r Grŵp Llywio'u trafod.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu a nododd y brwdfrydedd y mae'r trigolion eisoes wedi'i ddangos mewn perthynas â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Siaradodd y Cadeirydd am y cyfyngiadau cyfredol sydd ar waith o ganlyniad i bandemig Covid-19 a siaradodd am bwysigrwydd sicrhau bod y dull mor hygyrch ag sy'n bosibl ac mor hawdd i'w ddefnyddio ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau ei fod yn

cyrraedd cynulleidfa ehangach.

Siaradodd yr Is-gadeirydd am fanteision cyfathrebu wyneb yn wyneb â thrigolion a defnyddiodd ymgynghoriad y Cyngor mewn perthynas â'r gyllideb fel enghraifft, roedd yn fodlon y byddai'r Cyngor yn defnyddio pob dull posibl i ymgysylltu â'r gymuned ar bwnc pwysig fel hyn. Aeth yr Aelod ymlaen i siarad am strategaeth ymgysylltu flaenorol y Cyngor mewn perthynas ag ailgylchu a phwysleisiodd bwysigrwydd defnyddio'r derminoleg gywir wrth ymgysylltu â thrigolion.

Siaradodd un Aelod am bwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifanc, y cyfeiriwyd ato yn Adran 4.6 yr adroddiad. Siaradodd yr Aelod am frwdfrydedd a sylwadau gwerthfawr plant a phobl ifanc mewn perthynas ag ymgysylltu ac ailgylchu.
Adleisiodd un Aelod sylw a gafodd ei wneud mewn perthynas â phwysigrwydd ymgysylltu â phobl ifainc, ac awgrymodd rhai meysydd eraill y mae modd i'r Cyngor ei ystyried yn rhan o'r cynllun ymgysylltu:

- Rhwydwaith llysgenhadon ifainc Cymru ar gyfer newid yn yr hinsawdd;
- Y potensial i sefydlu Cynulliad Newid yn yr Hinsawdd, fel yr un yn Blaenau Gwent; a'r
- Cyfle i fanteisio ar becyn hyfforddi Technoleg Amgen ar gyfer Prydain Di-garbon.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd yr Aelod nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Griffiths am yr eitem gan ofyn i'r Cyngor gynnwys grwpiau cymunedol llai a grwpiau gweithgar yn rhan o'r gwaith ymgysylltu y mae'r Cadeirydd wedi cytuno arnyn nhw.

PENDERFYNODD **Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Cymeradwyo'r dull arfaethedig ar gyfer ymgynghori ar y Strategaeth Ddrafft - Newid yn yr Hinsawdd, a'r ymgyrch cyfathrebu/hyrwyddo cysylltiedig, a fydd yn cael eu cynnal ym mis Ebrill a Mai 2021;
2. Trafod a chefnogi'r dull diwygiedig o gynnal y sgwrs barhaus mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd;
3. Cytuno i'r swyddogion weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a grwpiau amgylcheddol allweddol er mwyn datblygu'r dull yma ar gyfer y dyfodol, a gofyn iddyn nhw gydweithio â ni ar weithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu penodol; a
4. Derbyn diweddariadau ar gynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol, gan gynnwys adborth ar ymgynghoriad y strategaeth newid yn yr hinsawdd.

## 15 Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan: Sbarduno Newid

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Eiddo Corfforaethol drosolwg o gynlluniau tymor canolig a hir dymor y Cyngor mewn perthynas â datblygu'r isadeiledd gwefru cerbydau trydan.

Yn gyntaf, roedd y Cyfarwyddwr wedi atgoffa'r Grŵp Llywio o'r trafodaethau blaenorol ynghylch adroddiadau sy'n ymwneud â'r sefyllfa o ran allyriadau carbon, trafnidiaeth a'r camau wedi'u nodi i leihau allyriadau o'r fath. Soniodd y Cyfarwyddwr am dystiolaeth yr oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru, a oedd yn rhagweld y bydd nifer y cerbydau trydan trwyddedig yn y DU yn cyrraedd 13.6 miliwn erbyn 2030 ac yn cynrychioli 60% o gyfran y farchnad.

Cafodd y Grŵp Llywio wybod am y meysydd gwaith canlynol y mae'r Cyngor eisoes wedi'i gyflawni i leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â Thrafnidiaeth:

- Briff dylunio ar gyfer yr holl gynlluniau mawr a chynlluniau Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd wedi'u diwygio i gynnwys darpariaeth mannau gwefru cerbydau trydan ar gyfer pob cynllun yn y dyfodol;
- Gosod mannau gwefru cerbydau trydan mewn prosiectau a gwblhawyd yn ddiweddar;
- Gweithio gydag Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas Ranbarth Caerdydd i gaffael cyllid gwerth £1.3miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021 i sefydlu rhwydwaith o fannau gwefru cerbydau trydan ar gyfer tacsis ledled y rhanbarth;
- Gweithio gydag Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas Ranbarth Caerdydd i ddatblygu cynigion i osod mannau gwefru 22KW mewn amrywiaeth o safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor ledled y rhanbarth;
- Arbrofi gyda mannau gwefru hybrid a mannau gwefru cerbydau trydan yn ogystal â monitro'r posibilrwydd ar gyfer datrysiadau tanwydd mewn perthynas â cherbydau fflyd, megis hydrogen; a
- Archwilio'r posibilrwydd o osod canopïau solar yn y maes parcio yn un o ganolfannau hamdden y Cyngor, gyda'r cyfle i gynnwys mannau gwefru Cerbydau Trydan yn y cynllun os yw'r cynllun yn cael ei weithredu.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at Adran 5 o'r adroddiad, sy'n nodi manylion y cynnydd sydd wedi'i wneud gan Awdurdodau Lleol cyfagos a'r sector preifat. Mae nifer ohonyn nhw wedi sicrhau darpariaeth o fannau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion a chwsmeriaid.

Siaradodd y Cyfarwyddwr am yr angen i ddatblygu Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan y Cyngor gyda nodau tymor byr, tymor canolig a hir dymor i fynd i'r afael â gofynion RhCT yn y dyfodol a dywedodd y byddai'r strategaeth yn sefyll ochr yn ochr â pholisïau cynllunio newydd a fabwysiadwyd o fewn y Cyngor ond y byddai angen adolygu a diweddaru'r rhain yn unol â mentrau rhanbarthol a/neu'r galw ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan yn y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r Cyngor, lle bo hynny'n bosibl, yn ceisio archwilio unrhyw gyfleoedd cyllido i gyflawni'r newid yn llwyddiannus.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr a'r swyddogion am yr adroddiad manwl. Soniodd y Cadeirydd am y cynnydd yn y galw am gerbydau trydan ymhlith trigolion ac roedd yn falch o nodi dull rhagweithiol y Cyngor i fodloni gofynion defnyddwyr yn y Fwrdeistref Sirol.

Siaradodd yr Is-gadeirydd yn gadarnhaol am y gwaith y mae'r Cyngor wedi'i wneud i leihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â chludiant ac roedd yn arbennig o falch o nodi bod y Cyngor yn ystyried ei fflyd ei hun. Soniodd yr Aelod am bwysigrwydd ceisio enghreifftiau o arfer gorau gan Awdurdodau Lleol eraill ac am ymgynghoriad eang, a fyddai'n rhoi mewnwelediad gwell i ofynion trigolion.

Cyfeiriodd un Aelod at y map o RCT sy'n dangos mannau gwefru cerbydau trydan posibl, sydd wedi'i nodi yn Atodiad III yr adroddiad, gan awgrymu y dylai'r Cyngor ystyried ardal Cwm Rhondda uchaf. Yn ogystal â hynny, cododd Aelod bryderon mewn perthynas â chyflenwad pŵer sydd ar gael ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan a chyfyngiadau grant y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel, sy'n golygu na fyddai nifer o drigolion y Fwrdeistref, sydd heb fannau parcio oddi ar y stryd, yn gymwys.

Roedd Pennaeth Rheoli Prosiectau Ynni wedi nodi sylwadau'r Aelod mewn perthynas â'r problemau sy'n gysylltiedig â phŵer ledled De Cymru. Rhoddodd wybod bod Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu yn y broses o newid Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu gyda'r bwriad o greu rhwydwaith sy'n fwy hygyrch a hyblyg.

Siaradodd un Aelod am gyfarfodydd Trafnidiaeth Ranbarthol a pha mor galonogol yw hi i weithio ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill, o ran rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd yr Aelod nad yw’n Aelod o'r Pwyllgor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Griffiths am yr eitem a gofyn i’r Cyngor ystyried amrywiaeth o leoliadau yn Ne'r Sir ar gyfer sefydlu mannau gwefru cerbydau trydan, megis Canolfan Hamdden Llantrisant a maes parcio i'r cyhoedd yn ardal Pont-y-clun. Roedd yr Aelod o'r farn y byddai gosod mannau gwefru cerbydau trydan ar safleoedd Parcio a Theithio yn achosi problemau oherwydd bod modd gadael y cerbyd yna drwy'r dydd.

Dymunodd Gyfarwyddwr Eiddo Corfforaethol ddiolch i'r Aelodau am eu hawgrymiadau a'u sylwadau gan nodi y bydd y rhain yn cael eu hystyried.

PENDERFYNODD **Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a nodi bod y Cyngor wir yn awyddus i sbarduno newid o ran isadeiledd gwefru cerbydau trydan ledled y Fwrdeistref Sirol;
2. Parhau â'r gwaith da sydd eisoes yn cael ei wneud megis parhau â threialu cerbydau trydan i'w ddefnyddio yn fflyd y Cyngor;
3. Y bydd swyddogion yn datblygu Strategaeth Isadeiledd Gwefru Cerbydau Trydan i eistedd ochr yn ochr â Strategaeth Drafnidiaeth a Pholisïau Cynllunio ar gyfer y dyfodol; a
4. Y bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu i gyflawni prosiectau ochr yn ochr â'r Strategaeth.

## 16 Materion Brys

Gyda chytundeb y Cadeirydd, cafodd y diweddariadau canlynol eu rhannu â'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd:

- Rhoddodd Mr C Blake ddiweddariad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd mewn perthynas â Phrosiect Rhondda Skyline. Rhoddodd Mr Blake wybod i'r Grŵp Llywio bod y cytundeb cychwynnol i sicrhau 84 hectar o goetir er mwyn i'r gymuned ei ddefnyddio yn rhan o gytundeb rheoli 20 blynedd wedi'i gymeradwyo gan Gyfoeth Naturiol Cymru ond cafodd ei wrthod gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn dilyn trafodaethau pellach, roedd dull newydd wedi'i sefydlu mewn egwyddor, i roi cyfle i'r

gymuned ddweud ei dweud yn y broses o ddylunio tirwedd fwy o ran adfywio naturiol. Y gobaith oedd y byddai cyllid grant ar gael gan CNC, gyda'r bwriad o ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r gymuned o ran cyflawni rhai o'r cynlluniau rheoli coetir llai.

- Rhoddodd y Pennaeth Rheoli Prosiectau Ynni wybod i'r Aelodau am Weithgor Newid yn yr Hinsawdd, sydd wedi'i ddatblygu i gefnogi'r broses o gyflwyno gwaith Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd. Dywedodd y swyddog fod y gweithgor yn cynnwys y swyddogion perthnasol o bob un o feysydd y Cyngor, a fyddai'n gweithio gyda'i gilydd i nodi, cydlynu a gweithredu'r strategaethau. Roedd cyfarfod cyntaf y Gweithgor wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnosau nesaf a byddai diweddariad yn cael ei ddarparu yn ystod cyfarfod nesaf Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion Newid yn yr Hinsawdd.

- Rhoddodd y Pennaeth Rheoli Prosiectau Ynni ddiweddariad i'r Grŵp Llywio ar y Prosiect Ôl-troed Carbon. Cafodd yr Aelodau wybod bod y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i gael mewnwelediad i Ôl-troed Carbon RhCT. Cafodd Aelodau wybod y bydd diweddariad cychwynnol ynglŷn â'r canfyddiadau yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfod o'r Grŵp Llywio er mwyn pennu ffordd ymlaen.

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 3.06 pm**

**Y CYNGHORYDD RHYS LEWIS**
**Cadeirydd.**